



Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Cyfarfod rhif cant a deg o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr

Cofnodion a gadarnhawyd y cyfarfod ar 12 Rhagfyr 2018, 11.00-12.15

Busnes agored

CYFRINACHOL

Presennol

Aelodau:	Mr Matt Adie Mr Stephen Criddle Ms Linda Duncan Yr Athro Maria Hinfelaar Yr Athro Helen Langton Mr Craig Watkins Mr Philip Wilson	Mr Christopher Banks (Cadeirydd) Dr Vanessa Davies Ms Sara Drake Mr Oliver Johnson Yr Athro Denise McAlister Yr Athro Philip Winn
-----------------	---	--

Ymddiheuriadau

Aelodau:	Yr Athro Craig Mahoney Mr Amatey Doku	Yr Athro Oliver Turnbull Yr Athro Andrew Wathey
-----------------	--	--

Yn bresennol

Swyddogion:

- Mr Douglas Blackstock (Prif Weithredwr)
- Miss Lavinia Blackett
- Mrs Natalie Haines
- Mr Ian Kimber
- Mr Will Naylor
- Ms Rowena Pelik
- Mrs Liz Rosser

Cynrychiolwyr aelodau'r cwmni:

- Mr Will Hammonds (Prifysgolion y DU)
- Mr Alex Bols (GuildHE)

Arsyllwyr:

- Ms Susan Lapworth (Y Swyddfa Myfyrwyr)
- Mr Ben Elger (Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol)
- Mr Alex Proudfoot (Independent HE)
- Ms Arti Saraswat (Cymdeithas y Colegau)
- Mr Scott Court (Y Swyddfa Myfyrwyr)

Croeso ac ymddiheuriadau

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau, cynrychiolwyr aelodau'r cwmni ac arsyllwyr i'r cyfarfod. Nodwyd yr ymddiheuriadau.
2. Croesawyd yr Athro Helen Langton i'w chyfarfod cyntaf gyda'r Bwrdd. Penodwyd yr Athro Langton i'r Bwrdd ar y cyd gan gyrrff cynrychioli aelodau'r cwmni.

Cworwm a buddiannau

Cworwm a buddiannau

3. Cytunwyd bod cworwm yn y cyfarfod.
4. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a materion sy'n codi ohonynt

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018 (eitem 3, BD-2018-68)

5. Cytunwyd bod cofnodion busnes agored y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018 yn gofnod ffyddlon a chywir o'r cyfarfod.
6. Ymysg y materion a gododd nad oeddent ar yr agenda beth bynnag, roedd:
 - Cofnod 8: Roedd Ms Linda Duncan a Mr Craig Watkins, ar y cyd gyda swyddogion QAA, wedi bod i gyd-weithdy'r Swyddfa Myfyrwyr a QAA i drafod datblygiad Mesurau Perfformiad Allweddol ym mis Tachwedd 2018. Adroddwyd ganddynt fod aelodau'r gweithdy wedi dod i gonsensws bras am y dulliau y cytunwyd arnynt ac y dylent gael eu mabwysiadu. Roedd y gweithdy wedi bod yn gadarnhaol ac roedd aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda swyddogion Swyddfa'r Myfyrwyr ac aelodau o'r Pwyllgor Asesu Ansawdd.
Nodyn yn dilyn y cyfarfod: Cadarnhaodd Ms Lapworth y byddai cofnodion y gweithdy ar gael i QAA gynted ag y bo modd.

Yr eitemau i'w trafod

Adroddiad y Prif Weithredwr (eitem 5, BD-2018-69)

7. **Ystyriodd** y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau diweddar mewn polisïau. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at y materion a ganlyn:
 - Roedd ymgyrch gadarnhaol ddiweddar mewn cydweithrediad â'r BBC ar onestrwydd academiaidd wedi'i lansio ar y BBC yr wythnos flaenorol. Roedd y lansiad yn cynnwys sylw ar newyddion chwech yr hwyr a newyddion deg yr hwyr gyda mwy na 4 miliwn o bobl yn gwyllo pob un (heb gyfri gwylwyr BBC iPlayer), a recordiad ar-lein y BBC oedd yn trendio oedd wedi'i wyllo 600,000 o weithiau. Roedd yr ymgyrch hefyd yn targedu plattfformau ar-lein a ddefnyddir gan gwmnïau sy'n felinau traethodau, yn cynnwys YouTube a Facebook oedd wedi cadarnhau, mewn ymateb i lythyr gan y Prif Weithredwr, y byddent yn tynnu cwmnïau o'r fath oddi ar eu plattfformau. Roedd PayPal a Google yn ystyried gwneud yr un peth.
 - Cafwyd cynnydd da tuag at gyflawni rhaglen Trawsnewid, Gallu a Newid yr Asiantaeth. Roedd yr holl staff wedi cwblhau archwiliad o'u sgiliau erbyn hyn, ac roedd rhaglen ar waith oedd yn cynnwys y staff yn y broses o siapio diwylliant y sefydliad ar gyfer y dyfodol. Cafodd adnoddau allanol ychwanegol eu sicrhau, yn cynnwys arbenigedd

mewn gweithrediadau rheoleiddio, arferion masnachu, datblygiad pobl a datblygiad sefydliadol. Byddai'r Bwrdd yn derbyn adroddiad llawn yn y sesiwn gaeedig am y cynnydd a gafwyd.

- Parhaodd y gwaith o ddatblygu cynnig aelodaeth a chynnig gwerth QAA i'r sector, gyda phwyslais penodol ar ddarparu gwasanaethau oedd yn briodol i ddarparwyr llai. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfodydd caeedig y Bwrdd.
 - Roedd y trafodaethau am yr Adolygiad Addysg Drawswladol arfaethedig yn 2019 ym Malaysia'n parhau i fod mewn ymgynghoriad â Phrifysgolion y DU (Rhyngwladol). Roedd Adran Masnach Ryngwladol Llywodraeth y DU wedi pwysleisio pwysigrwydd yr adolygiad yng nghyd-destun y newidiadau diweddar yn y llywodraeth ym Malaysia.
 - Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n mynychu'r fforwm Asia ac Ewrop yn Nulyn yr wythnos ddilynol, a fyddai'n canolbwyntio ar ansawdd a chydabyddiaeth ym maes addysg uwch drawswladol.
8. Ceisiodd Mr Oliver Johnson eglurhad yn ymwneud â'r her i'r sefydliad o ganlyniad i symud tuag at fodel busnes gwahanol a pherthynas wahanol gyda'r sector gyda mwy o ffocws ar greu incwm. Cadarnhaodd Mr Blackstock bod hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r rhaglen ehangach o newidiadau ond y byddai'n gofyn newid diwylliannol gydag agwedd fwy disgybledig tuag at olrhain gwerth am arian ac enilliad ar fuddsoddiad.
9. Dywedodd Mr Banks bod y ddarlith i ddathlu 21^{ain} pen-blwydd QAA wedi cael ei chynnal yn Llundain yn yr wythnos flaenorol. Denodd y ddarlith amrywiaeth eang o sefydliadau, ac roedd y siaradwr, Mrs Stefania Giannini, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cynorthwyol (Addysg) UNESCO, yn rhagorol, a siaradodd am berthnasedd safonau uchel mewn cyd-destun byd-eang o ehangu mynediad i addysg uwch. Estynnwyd diolch i bawb oedd wedi cymryd rhan yn y digwyddiad. Byddai Mr Banks yn anfon llythyr o ddiolch ar ran y Bwrdd at Mrs Giannini.

Newidiadau pellach i'r Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau (eitem 6, BD-2018-70)

10. Cyflwynodd Mr Naylor bapur oedd yn amlinellu sut y byddai busnes y Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau'n cael ei reoli, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys y mecanweithiau a luniwyd i ddarparu'r mathau o sicrwydd i'r Bwrdd y gofynnwyd amdanynt mewn perthynas â dirprwyo rhagor o awdurdod i'r Pwyllgor. Rhannwyd y cynigion gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Myfyrwyr oedd wedi rhoi adborth ac wedi awgrymu rhai diwygiadau i gylch gwaith y Pwyllgor. Rhannodd Mr Naylor y diwygiadau hyn gyda'r Bwrdd.
11. Nod y newidiadau a gynigiwyd oedd galluogi i'r Pwyllgor weithredu ei fusnes mewn ffordd effeithiol a phrydlon, gan roi darluniad clir o'r busnes cyfredol a'r hyn a fyddai'n cael ei wneud o dan y fframwaith rheoleiddio newydd yn Lloegr. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r ffordd orau o sicrhau'r cylch gwaith drwy'r DU gyfan sydd gan y Pwyllgor, gan gydnabod bod y rhan fwyaf o fusnes y Pwyllgor yn ymwneud â cheisiadau gan ddarparwyr yn Lloegr.
12. Cynigiwyd y byddai busnes y Pwyllgor Cynghori'n cael ei rannu'n ddwy ran amlwg, gan gychwyn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2019:
- a. Cheisiadau am bwerau dyfarnu graddau o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac o dan y system sy'n dod i ben yn Lloegr (sef meini prawf 2004 a 2015), dan gadeiryddiaeth Cadeirydd annibynnol presennol y Pwyllgor Cynghori, gan roi cyngor i Fwrdd QAA; a
 - b. Cheisiadau am bwerau dyfarnu graddau o dan y system reoleiddio newydd yn Lloegr, dan gadeiryddiaeth aelod annibynnol o Fwrdd QAA, a benodwyd i swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori, gan roi cyngor yn uniongyrchol i'r Swyddfa Myfyrwyr.

13. Parhaodd Mr Naylor drwy ddweud bod asesiad risg wedi'i gwblhau o waith y Pwyllgor a bod fframwaith sicrwydd wedi'i sefydlu. Byddai hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr Alex Proudfoot, cadarnhawyd bod y Pwyllgor yn ymroddedig i hyblygedd ac y byddai'n cyfarfod mor aml ag y bo'n angenrheidiol i weithredu ei fusnes. Cadarnhaodd Mr Naylor y byddai aelodau'r Pwyllgor yn parhau i gynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r DU.
14. Ceisiwyd eglurhad am gymhlethdod tebygol y ceisiadau gan ddarparwyr sy'n gweithredu ar draws gwledydd y DU o dan drefniadau etholfreinio. Cadarnhaodd Ms Lapworth hyn: os byddai'r darparwyr wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr, byddent yn cael eu hystyried yn gofrestredig yn Lloegr, ac felly byddent yn derbyn ystyriaeth o dan fframwaith rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr.
15. Penderfynodd y Bwrdd:
 - a. **gadarnhau** ei fod yn fodlon bod y mecanweithiau sicrwydd arfaethedig yn ei alluogi i ddirprwyo'r awdurdod y gofynnwyd amdano
 - b. **gymeradwyo** cylch gwaith adolygedig y Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau yn amodol ar y diwygiadau arfaethedig a gynigiwyd gan y Swyddfa Myfyrwyr
 - c. **gymeradwyo**'r cynnig y dylai aelod o'r Bwrdd gadeirio unrhyw fusnes sy'n ymwneud â cheisiadau o dan y system newydd yn Lloegr
 - d. **gadarnhau** dirprwyaeth yr awdurdod i'r Pwyllgor Cynghori i roi cyngor mewn perthynas â cheisiadau newydd yn uniongyrchol i'r Swyddfa Myfyrwyr heb gyfeirio at y Bwrdd.

Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau i'r Bwrdd, yn cynnwys cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol Cyfunol (eitem 7, BD-2018-71)

16. Derbyniodd y Bwrdd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau i'r Bwrdd, ynghyd â throsolwg ohono gan Mr Watkins. Estynnwyd diolch i aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgor, yn rhai hanesyddol a chyfredol. Cadarnhaodd Mr Watkins fod y Pwyllgor wedi talu sylw arbennig yn ystod y flwyddyn i reolaeth risgiau a rheolaeth fewnol, o ystyried yr amgylchedd dynamig iawn yr oedd QAA yn gweithio ynddo.
17. Dywedodd Mrs Rosser mai'r brif eitem a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018 oedd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018, oedd angen cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd y Datganiadau Ariannol Cyfunol yn cynnwys canlyniadau QAA Enterprises Cyf. Roedd y datganiadau ariannol ar gyfer QAA Enterprises Cyf wedi'u cymeradwyo yng nghyfarfod ei Gyfarwyddwyr ar 6 Rhagfyr 2018. Cadarnhaodd Mrs Rosser bod yr adroddiad a'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau (SORP 2015) a'r Safon Adrodd Ariannol (FRS 102). Roedd y Bwrdd wedi derbyn copi o'r adroddiad a'r cyfrifon hefyd ar ffurf drafft er mwyn rhoi eu sylwadau, cyn cyfarfod y Pwyllgor, ac roedd y Trysorydd Mygedol a'r Pwyllgor wedi'u hadolygu.
18. Tynnodd Mrs Rosser sylw at y ffaith nad oedd yr adroddiad ariannol a roddwyd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Hydref wedi adlewyrchu taliad dilynol a dderbyniwyd gan y Swyddfa Myfyrwyr ar gyfer arian grant pontio, felly roedd y cyfrifon yn cynnwys dim ond rhan o'r taliad hwn, sef £328,000, gan olygu bod gwarged cyffredinol o £183,000 yn y cyfrifon. Roedd y cronfeydd wrth gefn yn parhau i fod o fewn yr ystod ofynnol. Roedd adran ychwanegol wedi'i hychwanegu i'r adroddiad blynyddol oedd yn dangos ymrwymiad QAA i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Yn ogystal, dywedodd y Cadeirydd y byddai cofrestr o bresenoldeb aelodau unigol y Bwrdd yn cael ei chyhoeddi o 2018-19 ymlaen.

19. Tynnodd Mrs Rosser sylw'r Bwrdd at y ffaith y byddai'r archwilwyr allanol yn dychwelyd barn ddiamed ar y cyfrifon, ac na soniwyd am unrhyw broblemau gyda systemau neu reolaeth yn Adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad. Roedd yr amgylchedd rheoli cyffredinol yn parhau'n gryf.
20. Dywedwyd ymhellach bod rheolwyr y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau'n parhau'n fodlon gyda gwaith ac arbenigedd yr archwilwyr allanol ac y byddent yn argymhell y dylid cadw eu gwasanaethau hwy, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Aelodau'r Cwmni.
21. Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am eu gwaith.
22. Ar ôl ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd, aeth y Bwrdd ati i:
 - a) **ystyried** yr Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau i'r Bwrdd (BD-2018-72)
 - b) **gymeradwyo**, yn amodol ar addasiadau bychain, yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018 i'w cyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (BD-2018-73)
 - c) **awdurdodi** i'r Cadeirydd i lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol a'r llythyr cynrychioli ar ran y Bwrdd (BD-2018-74)
 - d) **ystyried** datganiadau ariannol QAA Enterprises Cyf (BD-2018-75)
 - e) **ystyried** Adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad gan yr archwilydd allanol (BD-2018-76)
 - f) **ystyried** yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (BD-2018-77)
 - g) **ystyried** y gwerthusiad gan yr archwilwyr ac **argymhellodd** i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y dylid ailbenodi'r archwilwyr allanol.

Penodiadau i'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a'r ymddeoliadau ohonynt (eitem 8, BD-2018-78)

23. Ar ôl cyflwyniad gan Mr Banks yn rhoi manylion ei fwriad i ymddeol o'i swydd fel Cadeirydd y Bwrdd ar ddiwedd cyfarfod y Bwrdd ar 13 Mawrth 2019, cyflwynodd yr Athro Philip Winn yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer recriwtio a phenodi Cadeirydd newydd:

Hysbysebu'r swydd	o hyn hyd at 7 Ionawr 2019
Llunio'r rhestr hir	15 Ionawr 2019
Cynnal cyfweiliadau cychwynnol gydag asiant	Yr wythnos yn dechrau ar 21 Ionawr 2019
Llunio'r rhestr fer	29 Ionawr 2019
Cynnal y cyfweiliadau terfynol	5 Chwefror 2019
Penodi gan y Bwrdd	13 Mawrth 2019
Dyddiad gweithredu'r penodiad	i'w gadarnhau

24. Cadarnhaodd yr Athro Winn ei fod wedi'i blesio gan yr amrywiaeth a'r lefel o ddiddordeb yn y rôl yr oeddent wedi'i dderbyn hyd yma.
25. Cytunodd y Bwrdd ar y penodiadau canlynol:
 - a. Ms Linda Duncan, Is-gadeirydd y Bwrdd, fel aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau yn rhinwedd ei swydd o 12 Rhagfyr 2018 ymlaen am gyfnod ei thymor mewn swydd fel Is-gadeirydd.

- b. Dr Dee Bird (cynrychiolydd o Gyngor Cyllido'r Alban) i Bwyllgor Cynghori ar Strategaeth yr Alban QAA Scotland, o 12 Rhagfyr 2018 am dair blynedd.

Newidiadau i gylch gwaith Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth yr Alban QAA Scotland (eitem 9, BD-2018-79)

26. Derbyniwyd ac ystyriwyd papur oedd yn rhoi manylion cylch gwaith adolygedig y Pwyllgor Cynghori hwn. Roedd y cylch gwaith a'r newidiadau arfaethedig iddo'n sicrhau bod gan y Pwyllgor aelodaeth oedd yn gallu ymateb i ddatblygiadau yn y sector yn gyflym, ac yn caniatáu i'r Pwyllgor gyfethol aelodau ychwanegol er mwyn cael arbenigedd newydd os byddai'n teimlo bod hynny'n briodol.
27. Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo**'r cylch gwaith adolygedig i'w weithredu ar unwaith.

Eitemau gohebu

Yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1 am y Cynllun Blynyddol a'r Gyllideb Flynyddol (eitem 10, BD-2018-80)

28. **Cydnabu**'r Bwrdd y datblygiad a wnaed yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-19. Cadarnhaodd Mrs Rosser mai'r adroddiad yma oedd y cyntaf o dan y trefniadau pontio yn Lloegr, gyda newid o amgylchedd ariannol sefydlog i un mwy cyfnewidiol.
29. Roedd effaith gyfunedig y newid sylweddol i'r ffordd y byddai'r sector addysg uwch yn Lloegr yn cael ei reoleiddio a'r symudiad tuag at fodel aelodaeth wirfoddol oedd ar y gweill, wedi arwain at y penderfyniad, yn 2018-19, y dylid monitro'r Cynllun Blynyddol a'r Gyllideb Flynyddol bob chwarter, yn lle bob tymor. Roedd hyn, o'i gyfuno â'r adroddiadau misol oedd yn cael eu hadolygu gan y Corff Gweithredol, yn caniatáu i Gorff Gweithredol a Bwrdd QAA asesu'r cynnydd cyfredol tuag at gyflawni'r amcanion strategol ac i gadw llygad ar y gyllideb mewn ffordd fwy amserol.
30. Cafodd lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn, a adolygwyd ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Hydref 2018, ei gosod i adlewyrchu'r amgylchedd cyfnewidiol hwn ac roeddent yn awr yn ystyried defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hynny yn rhan o'r agwedd tuag at ariannu yn ystod y flwyddyn bontio.
31. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi saith blaenoriaeth (chwe blaenoriaeth fusnes ac un flaenoriaeth sefydliadol) i QAA yn 2018-19. Yn dilyn adolygiad gan y Corff Gweithredol, cofnodwyd bod pump allan o'r saith blaenoriaeth ar y trywydd cywir ac nad yw dwy ar y pwynt cywir eto. O'r pum blaenoriaeth oedd ar y trywydd cywir, tynnwyd sylw at ddwy ohonynt fel rhai i 'gadw llygad barcud arnynt' dros y chwarter dilynol, o ystyried maint a chymhlethdod y gwaith oedd i gael ei wneud.
32. **Ystyriodd** y Bwrdd yr Adroddiad Monitro Perfformiad a Materion Ariannol.

Adroddiad cryno o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd (eitem 19, BD-2018-59)

33. Derbyniodd ac **ystyriodd** y Bwrdd adroddiad cryno am gyfarfodydd y pwyllgorau a gynhaliwyd ers mis Hydref 2018. Rhoddodd Mr Banks adroddiad ar lafar am gyfarfod Bwrdd QAA Enterprises Cyf a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2018, lle cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo, a lle cafwyd trafodaeth am rôl ddatblygiadol QAA Enterprises Cyf a fyddai'n cael ei rhannu gyda'r Bwrdd ehangach maes o law.

Unrhyw fater arall

Am nad oedd unrhyw fater arall, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

www.qaa.ac.uk